# Datblygu perthnasoedd gyda phlant a phobl ifanc

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â datblygu perthnasoedd gwaith gyda phlant a phobl ifanc i’w helpu i ddeall eu sefyllfa. Mae’n ymwneud â datblygu cytgord a pherthynas barchus, gydag ymddiriedaeth, gyda’r plentyn neu’r person ifanc. Hefyd, mae’n bwysig defnyddio chwarae neu ddulliau priodol eraill i ddatblygu’r berthynas yn ôl oedran y plentyn neu’r person ifanc.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cyflwyno'ch hun i'r plentyn neu'r person ifanc ac esbonio eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn gysylltiedig â'i ofal
2. cyfathrebu â'r plentyn neu'r person ifanc mewn ffyrdd sy'n briodol i'w oedran, ei ddealltwriaeth a'i ddewis
3. nodi a pharchu dymuniadau preifatrwydd a chyfrinachedd y plentyn neu'r person ifanc, oni bai bod hyn yn peri risg ychwanegol i'r plentyn neu i eraill
4. cydymffurfio â gofynion a chanllawiau cyfreithiol, proffesiynol a sefydliadol perthnasol
5. gwirio bod y plentyn neu'r person ifanc yn gyfforddus a'i fod yn deall bod ei anghenion yn bwysig ac yn destun sylw
6. ymateb i unrhyw bryderon sydd gan y plentyn neu'r person ifanc am ei sefyllfa a cheisio'i farn yn weithgar
7. annog y plentyn neu'r person ifanc i ofyn cwestiynau a cheisio eglurhad ynghylch unrhyw faterion
8. ymateb yn sensitif i unrhyw faterion sy'n cael eu codi gan y plentyn neu'r person ifanc a chymryd y camau priodol i fynd i'r afael â nhw
9. gwirio bod rhyngweithiadau'n dangos parch tuag at brofiad, gwybodaeth a chefndir y plentyn neu'r person ifanc
10. sefydlu cytgord gyda'r plentyn neu'r person ifanc trwy chwarae a dulliau eraill
11. darparu gwybodaeth i'r plentyn neu'r person ifanc mewn ffordd sy'n ei alluogi i drafod opsiynau at y dyfodol a gwneud penderfyniadau gwybodus, lle y bo'n bosibl
12. crynhoi gwybodaeth gan ddefnyddio geiriau, brawddegau ac ymadroddion gwahanol i gynorthwyo dealltwriaeth y plentyn neu'r person ifanc
13. cyfeirio'r plentyn neu'r person ifanc at ffynonellau gwybodaeth, cyngor neu gymorth pellach, fel y bo'n briodol i'w anghenion
14. cadarnhau a chytuno gyda'r plentyn neu'r person ifanc ar y wybodaeth y gellir ei rhannu â phobl eraill, neu lle bo angen rhannu
15. cael cymorth priodol pan fydd problemau cyfathrebu neu berthynas
16. darparu gwybodaeth am sut i gysylltu â chi i gael cymorth os bydd angen
17. cwblhau cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. sut i reoli eich cyfrifoldebau fel gweithiwr proffesiynol â gofynion sefydliadol a chytundebol
4. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol a'i berthynas ag eraill yn eich sefydliad a'r ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
5. rolau ymarferwyr eraill sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd
6. y wybodaeth a'r arweiniad sydd ar gael i blant a phobl ifanc a sut i gael atynt
7. gweithwyr proffesiynol, rhwydweithiau ac asiantaethau eraill sydd ar gael i gefnogi plant a phobl ifanc, a sut i gael at y rhain
8. effaith bosibl y gwaith hwn arnoch chi, a sut i gael at gymorth pan fydd angen
9. polisïau allweddol y llywodraeth yn gysylltiedig ag iechyd a lles plant a phobl ifanc
10. y prif faterion a thrafodaethau'n gysylltiedig ag iechyd a lles plant a phobl ifanc
11. y fframweithiau ar gyfer asesu anghenion plant a phobl ifanc
12. yr arweiniad sydd ar gael ar gyfer eich ymarfer, a ffynonellau'r arweiniad
13. ymarfer seiliedig ar dystiolaeth a'i rôl wrth wella gwasanaethau
14. prif gamau datblygiad plant a sut maent yn effeithio ar ei gilydd
15. gwahanol ymatebion i drawma a'u heffaith
16. gwahanol ddulliau, cefndiroedd ac arferion magu plant, ac effaith bosibl y rhain ar iechyd a lles plant a phobl ifanc
17. effaith y teulu a'r amgylchedd ar iechyd a lles plant a phobl ifanc
18. sut gall anghenion plant a phobl ifanc effeithio ar bobl eraill
19. y ffactorau cyfrannol sy'n cynyddu risg niwed i blant a phobl ifanc a'r sbardunau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau neu ymddygiad annisgwyl
20. y foeseg ynghylch cydsyniad a chyfrinachedd, a'r tyndra a all fodoli rhwng hawliau unigolyn a pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
21. hawliau unigolion i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain ac i gymryd risgiau
22. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ynghylch cael cydsyniad

23. polisi a chanllawiau lleol a chenedlaethol ar gyfer cofnodion unigolion, eu storio, eu hadalw a'u trosglwyddo, a chyfrinachedd gwybodaeth
24. y wybodaeth sydd wedi'i chofnodi ar gofnodion unigolion; sut i gael at a defnyddio'r wybodaeth hon; a'ch cyfrifoldebau ar gyfer cynnal cofnodion
25. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i'w haddasu i fodloni anghenion plant a phobl ifanc
26. sut i greu amgylchedd sy'n gwneud i unigolion deimlo'n gartrefol
27. pwysigrwydd sefydlu cytgord a pherthynas barchus, gydag ymddiriedaeth, gyda phlant a phobl ifanc, a dulliau o wneud hynny
28. pwysigrwydd gweithio mewn ffordd sy'n hwyluso ac yn galluogi, a sut i wneud hyn
29. pwysigrwydd canolbwyntio ar y plentyn neu'r person ifanc fel unigolyn
30. y ffyrdd y mae plant a phobl ifanc yn cyfathrebu trwy ymddygiad, yn ogystal â thrwy iaith, a sut y gall gwahanol fathau o ymddygiad gael eu dehongli

## Geirfa

**Cam-drin Domestig**
Patrwm o ymddygiad rheolaethol, ymddygiad gorfodaethol, ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu a fu, yn bartneriaid clos neu'n aelodau teulu, ni waeth beth yw eu rhywedd neu eu rhywioldeb. Gall y cam-drin gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gyfuniad o gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.

Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys trais ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Mae plant hefyd yn cael profiad o gam-drin domestig pan fyddant yn dyst i gam-drin domestig.

**Croestoriadedd**
Natur gysylltiedig categoreiddiadau cymdeithasol fel hil, dosbarth a rhywedd, yr ystyrir eu bod yn creu systemau gwahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd ac sy'n gyd-ddibynnol

**Dull dan arweiniad anghenion**
Math o eiriolaeth sy'n gosod y goroeswr yn ganolog i ymyriadau a gwaith cymorth. Mae hyn yn golygu gwrando ar eu hanes, eu pryderon a'u hanawsterau, a nodi cryfderau. Mae'n arwain at gynhyrchu pecynnau cymorth yn gydgynhyrchiol, sy'n benodol i anghenion unigol goroeswyr. Mae dull dan arweiniad anghenion yn ymdrech ymrymusol sy'n talu sylw i amgylchiadau croestoriadol goroeswyr, gan osgoi maglau rhagfarn sefydliadol neu ymatebion aneffeithiol.

**Dull seiliedig ar gryfderau**
Cydnabod bod gan unigolion gryfderau. Cydnabyddir y cryfderau hyn ac adeiladir arnynt fel rhan o gynorthwyo ag adfer.

**Pobl mewn perygl**
Unigolyn y diffinnir bod arno angen gofal, cymorth neu amddiffyniad arbennig oherwydd oedran, anabledd, risg cam-drin neu esgeulustod

**Trais Rhywiol (gweler hefyd ddiffiniadau isod y gellir eu defnyddio sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol neu ymosodiad rhywiol)**
Yn debyg o ran ei natur i gam-drin rhywiol, ond defnyddir y term hwn yn fwy aml i ddisgrifio digwyddiadau byr neu unigol, megis ymosodiad rhywiol gan ddieithryn.

**Cam-drin Rhywiol**
Ymddygiad rhywiol digroeso gan un person tuag at berson arall. Mae hwn yn aml yn cael ei gyflawni trwy rym neu trwy gymryd mantais ar y person arall. Defnyddir y term hwn yn gyffredinol pan fydd yr ymddygiad rhywiol yn rheolaidd neu'n digwydd dros gyfnod estynedig.

**Ymosodiad Rhywiol**
Unrhyw ymddygiad rhywiol digroeso nad yw person wedi cydsynio iddo. Gall hyn amrywio o drais i voyeuriaeth i orchestu, i gyffwrdd digroeso dros neu o dan ddillad.

**Ymarfer Ystyriol o Drawma**
Ymagwedd at ymyriadau iechyd a gofal sydd â'i sail mewn deall bod amlygiad i drawma'n gallu effeithio ar unigolyn. Bydd ymarferwyr yn gweithio mewn ffyrdd nad ydynt yn ailachosi trawma yn anfwriadol i'r unigolyn, ac mae pwyslais ar ddiogelwch, dewis, cydweithrediad a grymuso'r cleient.

Datblygu perthnasoedd gyda phlant a phobl ifanc

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 26 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJGK513 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Lloches, Gweithiwr Argyfwng, Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | Cyfathrebu; rhannu gwybodaeth; iechyd a lles; preifatrwydd; cyfrinachedd; datblygu perthnasoedd |